



Swyddog Datblygu Criced

Teitl y Swydd:	Swyddog Datblygu Criced Cymru ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru gan gynnwys Ynys Môn a Gwynedd
Lleoliad:	Gogledd Cymru
Yn adrodd i:	Rheolwr Criced Ardal Rhanbarthol Gogledd Cymru
Oriau Gwaith:	Amser llawn, 35 awr yr wythnos
Cyflog:	£24,000 y flwyddyn a chostau priodol
Cytundeb:	Cytundeb cyfnod penodol tan Awst 2025 yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus

Mae Criced Cymru, sef corff llywodraethu criced yng Nghymru, yn bodoli i arwain, ysbrydoli, a dylanwadu ar dwf, ansawdd, a hygyrchedd criced yng Nghymru. Rydym wrthi'n recriwtio unigolion brwdfrydig, angerddol a phroffesiynol i ymuno â'n timau, i gyflawni cynlluniau datblygu ardal a rhaglenni Chance to Shine, Lord Taverners a'r ECB. Gweler y Disgrifiad Swydd a'r Manyleb Person sydd ynghlwm am fanylion pellach.

Sut i Ymgeisio

Cwblhewch ffurflen gais (dolen yn y brif hysbyseb). Bydd angen ei hanfon at sandie.keane@cricketwales.org.uk ynghyd â llythyr eglurhaol yn gosod eich sgiliau a'ch profiad i gyd-fynd â'r disgrifiad swydd.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Sul Tachwedd 17eg

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, dylech gysylltu â Sue Wells, Rheolwr Ardal Gogledd Cymru: sue.wells@cricketwales.org.uk

Gwybodaeth Ychwanegol: Darperir hyfforddiant Chance to Shine a Lord Taverners i'r ymgeisydd llwyddiannus. Darperir hyfforddiant perthnasol arall hefyd fel bo angen i gynorthwyo gyda'r rôl. Darperir dillad ac offer hyfforddi priodol i'r ymgeisydd llwyddiannus.

Mae'r swydd hon yn cael ei chefnogi gan yr ECB, Lord Taverners, Chance to Shine a Criced Cymru. Cynigir y swydd ar gytundeb cyfnod penodol yn y lle cyntaf, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf llwyddiannus.

Prif Gyfrifoldeb

- 1 Tyfu, cefnogi ac ehangu pob ffurf ar Griced a chwaraeir yn yr ardal, drwy ddylanwadu ar, a chynorthwyo clybiau, cyflenwi Chance to Shine, Lord Taverners a rhaglenni a noddir gan yr ECB mewn ysgolion a chlybiau, gan arwain at greu cyfranogwyr criced All Stars a chriced Dynamos; pontio o raglenni Cenedlaethol i dimau clybiau iau newydd a phresennol sy'n chwarae criced cynghrair iau strwythuredig.
- 2 Gweithio gyda'r tîm Ardal i ddatblygu cyfleoedd a strwythurau i hwyluso criced a sicrhau bod Criced yn Gêm i Bawb.
- 3 Cefnogi ethos ein [strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant](#):

TRAWSNEWID CRICED YNG NGHYMRU I GREU AMGYLCHEDD LLE MAE PAWB YN CAEL EU TRIN Â PHARCH A THEGWCH AC YN TEIMLO EU BOD YN PERTHYN

Cyfrifoldebau i gefnogi'r nod uchod

- 1 Cynllunio; cyflwyno; gwerthuso a monitro sesiynau hyfforddiant cymunedol Chance to Shine a Lord Taverners a sesiynau Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan o fodel cyflenwi Criced Cymru.
- 2 Cynorthwyo i ddrafftio a rhoi cynlluniau datblygu clybiau ar waith. Rhoi help a chynghor pan fydd plant yn pontio naill ai o weithgaredd ysgol neu o fewn rhaglenni cenedlaethol clybiau, fel bod plant yn dod yn aelodau gweithgar o adrannau iau clybiau.
- 3 Gweithio gyda chlybiau dynodedig i gynyddu eu gallu i redeg a threfnu timau clwb iau ychwanegol sy'n chwarae mewn cynghreiriau criced a gwyliau strwythuredig ar gyfer chwaraewyr iau.
- 4 Cyflwyno a chefnogi cyfleoedd cystadlu newydd ar gyfer criced clybiau, gan gynnwys fformatau amgen o'r gêm, mewn partneriaeth â chynghreiriau lleol.
- 5 Ehangu mynediad at griced ar gyfer grwpiau targed penodol, gan gynnwys merched, pobl ag anabledd, pobl ifanc o gymunedau amrywiol a rhai o gefndir difreintiedig, drwy arwain rhaglenni stryd Chance to Shine, Super 1s a hybiau MCC lle bo angen.
- 6 Cyflwyno a chefnogi cystadlaethau criced oddi mewn a rhwng ysgolion sy'n cymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys darparu a threfnu gwyliau ysgolion Dynamos, gwyliau Chance to Compete ar gyfer merched, a gwyliau Cynhwysol.

- 7 Ymweld â Gwasanaethau ysgol, Gwobrau Athrawon, Gwobrau Arweinwyr Ifanc a mentrau eraill i annog ysgolion i gymryd rhan, a sicrhau cynaliadwyedd hyfforddiant criced mewn ysgolion.
- 8 Mentora athrawon, hyfforddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gweithgareddau criced o ansawdd da, gan gynorthwyo athrawon gyda'r adnodd Chance to Shine.
- 9 Ymgysylltu â phartneriaid ehangach all gyfrannu tuag at ddeilliannau gwasanaeth Criced Cymru, ac ychwanegu gwerth at gynnig presennol Criced Cymru (e.e. Adrannau Datblygu Chwaraeon Awdurdodau Lleol, Clybiau Lleol a Grwpiau Clwstwr amrywiol, Gemau Stryd).
- 10 Hyrwyddo aelodaeth Criced Morgannwg, mynychu gemau a mentrau hyrwyddo eraill Morgannwg ymhob ysgol a chlwb perthnasol, i ddatblygu cysylltiadau rhwng ysgolion lleol, clybiau a Criced Morgannwg, ac i ysbrydoli plant i ddatblygu o fewn y gêm.
- 11 Cwblhau monitro ar-lein ac adroddiadau eraill fel bo'n ofynnol gan Chance to Shine, Lord Taverners, a'r holl bartneriaid ariannu allweddol eraill.
- 12 Adeiladu perthnasoedd gwaith positif â chlybiau criced dynodedig, a gweithio gyda Thîm Ardal Criced Cymru i gefnogi amcanion datblygu ehangach.
- 13 Bydd y rôl yn gofyn cyflawni dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd. Bydd gofyn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau tîm.

Rheolaeth

Rheolwr llinell y swydd o ddydd i ddydd fydd Rheolwr Criced Ardal y rhanbarth penodol.

[I gael manylion am ein hymrwymiad i Recriwtio Mwy Diogel gweler yma](#)

Mae Criced Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal. Er y byddwn bob amser yn penodi ar sail teilyngdod, byddem yn annog ceisiadau yn arbennig oddi wrth grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced – yn enwedig merched neu bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, neu rai sydd ag anabledd.

Cymhwysedd:

Rhaid ichi fod yn byw ac yn meddu ar yr hawl i weithio yn y DU i wneud cais am y swydd hon.

MANYLEB PERSON:

HANFODOL	DYMUNOL
<p>Cymwysterau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn gweithio tuag at gymhwyster 'Core Coach' ECB neu Lefel 2 ECB neu gymhwyster cyfwerth - Wedi mynychu Cwrs Diogelu ac Amddiffyn Plant - Cymhwyster Cymorth Cyntaf - Gwiriad DBS Manwl (adeg penodi) - Wedi cofrestru gyda'r ECB 	<p>Cymwysterau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gradd mewn pwnc cysylltiedig â chwaraeon - Aelod o'r ECBCA - Ysgogwr ('Activator') Criced All Stars neu Dynamos
<p>Profiad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ddylanwadu ar glybiau a chyreff cymunedol i greu newid positif - Hyfforddi Plant a Phobl Ifanc (bechgyn a merched) - Cynllunio a darparu sesiynau hyfforddi o fewn amgylchedd ysgol a chlwb chwaraeon - Hyfforddi grwpiau gallu cymysg 	<p>Profiad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Addasu gweithgareddau hyfforddi ar gyfer amgylcheddau gwahanol - Hyfforddi grwpiau oedran cymysg - Recriwtio, hyfforddi a mentora gwirfoddolwyr a hyfforddwyr
<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Glybiau Criced - Datblygu Chwaraeon - Y Sector Addysg - Amddiffyn a Lles Plant o fewn chwaraeon 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaglenni Chance to Shine a Lord Taverners
<p>Sgiliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig - Sgiliau trefnu - Sgiliau gweinyddu - Sgiliau TG 	<p>Sgiliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Siaradwr Cymraeg
<p>Ychwanegol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Trwydded Yrru DU Lawn a defnydd o gerbyd - Parodrwydd i weithio oriau hyblyg gan gynnwys ar nosweithiau a phenwythnosau - Yn gwirioni ar griced 	